Hawdd ei Ddeall

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Gweithiwr Cyswllt Cyngor Celfyddydau Cymru

## Dywedwch wrthyn ni os hoffech chi weithio gyda ni yn 2023 a 2024

Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**Gweithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau 2022 i 2024**’.

**Medi 2022**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y **geiriau mewn glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 14**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl y **Cyngor Celfyddydau**. Am ragor o wybodaeht cysylltwch gyda:

**Gwefan:** https://arts.wales/cy

**E-bost:** associates@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl o'r fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad .................................................................. 4**

**Beth fydd Gweithiwyr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau yn ei wneud ...................................................................... 7**

**Sut rydw i'n gwneud cais? ................................................ 9**

**Hyfforddiant ............................................................... 11**

**Taliad ........................................................................ 12**

**Ydw i'n gallu bod yn Weithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau? ........................................................ 13**

**Geiriau Anodd .......................................................... 14**

# Cyflwyniad

Ni ydy **Cyngor Celfyddydau Cymru**.



Mae'n bwysig inni bod popeth rydyn ni yn ei wneud yn agored ac yn hygyrch i bawb.



Rydyn ni'n meddwl bod y celfydyddydau yn bwysig i fywydau a llesiant pawb.



Rydyn ni eisiau i bobl o wahanol gymunedau a chefndiroed ddod yn **Weithwyr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau.**




Fe fydd ein **Gweithwyr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau** yn ein helpu ni  i wneud yn siŵr ein bod yn gwrando ar whanol leisiau a phobl gyda galluoedd gwahanol. Fe fyddan nhw yn ein helpu ni i gynnwys pawb yn ein gwaith.

Rydyn ni'n chwilio am bobl sydd gyda phrofiad gwaith neu bywyd o:



- **Cydraddodeb**

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw yr un cyfleoedd mewn bywyd.



- **Amrywiaeth**

Mae **amrywiaeth** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu yn dda am wneud pethau gwahanol.



- **Cynhwysiant**

Mae **cynhwysiant** yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg.



- Y rhwystrau mae rhai pobl a chymunedau yn gallu eu wynebu.



Rydyn ni'n chwilio am bobl sydd yn caru'r celfyddydau, sydd yn gwerthfawrogi'r celfyddydau neu sydd gyda phrofiad yn y celfyddydau.



Rydyn ni eisiau pobl sydd yn gallu ein helpu ni i gysylltu gyda grŵp ehangach o bobl.



Rydyn ni hefyd eisiau clywed oddi wrth bobl neu grwpiau sydd wedi cael trafferth i gael ein cyllid ar gyfer prosiectau celfyddydol.




Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dod yn **Weithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau**, fe fydd angen i chi lenwi ffurflen [Mynegiant o Ddiddordeb] ar-lein. Efallai eich bod angen rhywun i'ch helopu chi i wneud hyn. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar **dudalen 9**.



Os ydych chi'n cael eich dewis i fod yn Weithiwr Cyswlltlf fe fyddwch chi yn cael eich ychwanegu at dîm o weithwyr cyswllt. Fe fyddwch chi yn cael eich talu am y gwaith rydych chi'n ei wneud fel Gweithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau.

# Beth fydd Gweithiwyr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau yn ei wneud



Fe fydd **Gweithwyr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau** yn gweithio gyda ni i roi cyngor ac arweiniad.



Fe fyddan nhw yn ein helpu ni i ddeall pobl wahanol o gefndiroedd gwahanol a beth sydd yn bwysig iddyn nhw.



Fe fydd Gweithwyr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau yn ein helpu ni gyda:

- Cynllunio
- Prosiectau
- Creu cyfleoedd cyllido newydd
- Penderfynu pwy sydd yn cael cyllid
- Y ffordd mae pobl yn gwneud cais am gyllid



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein holl waith yn cynrychioli'r **amrywiaeth** yn ein cymunedau.



Fe fyddwch chi yn ein helpu ni  i wneud penderfyniadau sydd yn gwneud yn siŵr ein bod ni mor **gynhywysol, amrywiol a chyfartal** â phosibl.



Fe fydd angen i **Weithwyr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau** sydd mewn gwaith llawn amser ofyn i'w cyflogwr adael iddyn nhw gymryd rhan yn ein gwaith.

# Sut rydw i'n gwneud cais?



Os oes gennych chi ddiddordeb, llanwch ffurflen **Mynegiant o Ddiddordeb** ar-lein os gwelwch yn dda.



Efallai eich bod chi angen rhywun i'ch helpu i wneud hyn.



Rydych chi'n gallu gwneud cais i fod yn weithiwr cyswllt o **7 Medi 2022.** Rhaid i chi anfon eich [Mynegiant o Ddiddordeb]() inni erbyn **12pm Canol Dydd** ar **Ddydd Iau 20 Hydref 2022**.



Fe fyddwn ni'n rhoi gwybod i chi pan fyddwn ni yn derbyn eich ffurflen **Mynegiant o Ddiddordeb**. Fe fyddwn ni yn ceisio ateb 3 wythnos ar ôl y dyddiad olaf.



Fe fyddwn ni yn cysylltu gyda chi os ydyn ni'n meddwl bod gennym ni swydd sydd yn addas i'ch profiad personol.




Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd, fe fyddwn ni yn gofyn i chi roi rhagor o wybodaeth inni am eich profiadau.



Mae hyn yn gallu bod mewn dogfen ysgrifenedig neu fideo byr. Fe fyddwn ni yn defnyddio'r wybodaeth yma i ddewis pobl i'n helpu ni gyda rhai swyddi arbennig.



Os ydy eich ffurflen **Mynegiant o Ddiddordeb** yn cael ei derbyn, dydy hynny ddim yn meddwl y byddwch chi yn dod yn **Weithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau**.



Fe fydd hyn yn meddwl y byddwch chi mewn grŵp o bobl fydd **efallai** yn cael eu gofyn i weithio inni yn y **2 flynedd** nesaf.

# Hyfforddiant



Fe fyddwn ni yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer swyddi rydyn ni wedi gofyn i chi gymryd rhan ynddyn nhw.




Fe fyddwch chi yn cael eich talu am eich dyddiau hyfforddi.



Fe fyddwn ni yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn pan rydych chi yn cael cynnig swydd fel **Gweithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau**.

# Taliad




Os ydych chi'n gweithio gyda **Chyngor Celfyddydau Cymru,** efallai y byddwch chi yn gweithio hanner diwrnodau neu ddiwrnodau llawn.




Os ydych chi'n gweithio diwrnod llawn fe fyddwch chi yn cael **£300** bob dydd. Fe fyddwch chi yn cael **£150** am hanner diwrnod.

# Ydw i’n gallu bod yn Weithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau?




I fod yn **Weithiwr Cyswllt y Cyngor Celfyddydau**, rhaid i chi:

- Bod dros 18 oed
- Cael gweithio yn y DU
- Dim yn gweithio ar hyn o bryd i’r Cyngor Celfyddydau



Os oes gennych chi urnhyw gwestiynau e-bostiwch ni ar; [Associates@arts.wales](mailto:Associates@arts.wales)




Diolch i chi am eich diddordeb mewn gwneud cais!

# Geiriau Anodd

## Amrywiaeth

Mae arywiaeth yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu yn dda am wneud pethau gwahanol.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

## Cynhwysiant

Mae cynhwysiant yn meddwl bod pawb yn gallu cymryd rhan a bod gan bawb gyfle teg.